



Ein cyf/Our ref: MA-JH-1241-20

At: ACau
Cyrff ambarél ac arweinwyr y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a
Thrais Rhywiol
Comisiynwyr Heddlu a Throseddau
Prif Gwnstabiliaid
Prif Weithredwyr awdurdodau lleol
Prif Weithredwyr byrddau iechedd lleol ac ymddiriedolaethau iechedd
CGGC
Cynghorau Gwirfoddol Sirol

9 Ebrill 2020

Mae cyfnod argyfwng Covid-19 yn un pryderus i bob un ohonom, ond yn ddwbl felly i'r rheini y mae cyfyngiadau'r Llywodraeth ar symud yn golygu eu bod yn sownd yn eu cartrefi gyda rhywun sy'n eu cam-drin. I'r rhain, nid lle diogel yw eu cartref, ond lle o ofn, cam-drin a thrais.

Mae'r dystiolaeth ryngwladol yn dangos bod cam-drin domestig yn cynyddu yn ystod adegau o argyfwng, yn ogystal â mathau eraill o drais yn erbyn menywod a thrais rhywiol. Mae pellter cymdeithasol, hunanynysu a thensiynau wedi gwaethygu hyn wrth i bryderon am iechedd, sefydlogrwydd gwaith ac arian arwain at ffrwydradau o drais. Mae gwledydd eraill y mae'r pandemig yn effeithio arnynt yn cofnodi cynnydd sylweddol yn lefel y cam-drin domestig.

Mae fy swyddogion mewn trafodaethau rheolaidd gydag arweinwyr allweddol ar draws y sector a'r Llywodraeth, yn ogystal â chyda darpar-Gomisiynydd Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU. Mae hi wedi nodi bod llawer i'w ddysgu o'r gwaith rydym yn ei wneud yng Nghymru. Yn benodol, mae hi wedi cyfeirio at gyfoeth yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu gan Gymru.

Mae cyfathrebu yn allweddol ar hyn o bryd. Yr wythnos diwethaf, fe wnes i recordio neges i roi gwybod i'r rheini sydd ei hangen y bydd ein llinell gymorth Byw Heb Ofn yn parhau i ddarparu cymorth drwy gydol y pandemig. Fe wnaeth Yasmin Khan, un o'r ddau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymgynghorydd Cenedlaethol sydd gennym ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, hefyd recordio neges i helpu dioddefwyr i'w cadw'u hunain yn ddiogel.

Mae ffonio'r llinell gymorth yn anodd pan fydd y person sy'n eich cam-drin o fewn clyw, ac felly rydyn ni'n hyrwyddo dulliau 'tawel' o gyfathrebu â Byw Heb Ofn, ee drwy neges destun, sgwrsio dros y we ac e-bost. Rydym hefyd yn rhannu negeseuon y bydd yr heddlu yn ymateb i alwadau 999 a sut i roi gwybod i'r person yr ochr arall i'r ffôn os na allwch siarad.

Rydym eisiau i eraill sylwi ar yr arwyddion bod angen help ar rywun a byddwn yn ailredeg ein hymgyrch 'Paid cadw'n dawel'. Rydym am weithio gyda'r heddlu, fferyllfeydd ac archfarchnadoedd i rannu ein neges 'Paid cadw'n dawel' ynghyd â gwybodaeth am sut i gael help a chefnogaeth. Rydym hefyd wedi agor modiwl e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i bawb, ac yn ei rannu ar y rhwydwaith gwirfoddoli, er mwyn i bobl allu adnabod yr arwyddion a gwybod sut i gael help.

Ar y penwythnos, cyhoeddais fy mod yn lansio cronfa werth £1.2 miliwn i brynu llety cymunedol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig. Bydd hyn yn darparu llety i ddioddefwyr symud i mewn iddo ac yn osgoi cymryd gwelyau mewn llochesi. Bydd hefyd yn darparu llety i'r rheini nad oes angen iddynt fynd i loches. Cynigir £200,000 hefyd ar gyfer dodrefn, llenni, carpedi a nwyddau gwynion, tra bydd ein grant cyfalaf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol blynyddol yn blaenoriaethu prosiectau sy'n ymateb i'r argyfwng hwn.

Mae swyddogion o bob rhan o'r Llywodraeth yn gweithio i ddod o hyd i ddarpariaeth ddiogel i'r rheini sy'n dianc rhag cam-drin domestig a mathau eraill o drais. Bydd y gronfa gymorth o £10 miliwn a gyhoeddwyd gan fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Tai ac Adfywio, yn helpu i gyflawni'r anghenion hyn, ynghyd â phwerau newydd i awdurdodau lleol i ddiogelu iechyd y cyhoedd a chyflawni anghenion pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheini nad oes arian cyhoeddus ar gael iddynt.

Mae mynediad i fwyd yn bwysicach nag erioed, ac rydym yn gofalu nad yw'r rheini y mae angen iddynt brynu llawer o fwyd ar gyfer llochesi a llety tebyg yn cael eu hatal gan gyfyngiadau archfarchnadoedd ar y nifer o eitemau y cânt eu prynu.

Rydym yn cefnogi gwasanaethau sy'n gweithio gyda'r rheini sy'n cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ystyried y risgiau uwch sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'r newidiadau a'r cyfyngiadau ar fywyd bob dydd yn y DU. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ystod cyfnod y Coronafeirws, ac maent yn cynnwys cyngor ar reoli'r risgiau hyn, addasu rhaglenni ac ymyraethau, a sicrhau diogelwch staff sy'n gweithio gartref. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio hefyd gyda Chymorth i Ferched Cymru, a ddatblygodd ganllawiau cyfatebol yn canolbwyntio ar ddioddefwyr a'u teuluoedd, i'w darllen ochr yn ochr â chanllawiau Llywodraeth Cymru.


Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru i lywio'r cynlluniau wrth gefn, sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch staff a defnyddwyr y gwasanaeth, ac yn cadw'r ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd. I'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, bydd hyn yn cynnwys rhoi blaenoriaeth i achosion yr asesir eu bod yn risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol, cam-drin domestig, a diogelu plant ac oedolion. Mae gofynion cadw pellter cymdeithasol wedi golygu bod yn rhaid mabwysiadu dulliau gwahanol o oruchwylio troseddwy'r fel y bo'n briodol.

Ar draws ystâd carchardai Cymru, mae gweithdrefnau wedi'u cyfyngu mewn ymgais i greu mwy o bellter cymdeithasol rhwng y dynion yng ngofal Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM,

ond gan gynnal amgylchedd safonol a diogel ar yr un pryd. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ryddhau menywod beichiog a menywod mewn unedau mam a'i baban. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i gwblhau cynlluniau i ryddhau'r unigolion hyn. Rhyddheir nifer fach yng Nghymru. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod partneriaid yn barod os gwneir penderfyniad i ryddhau mwy o garcharorion. Diogelu a gwarchod y cyhoedd yw'r flaenoriaeth o hyd yn ystod y cyfnod hwn.

Mae swyddogion wedi bod yn cydweithio i sicrhau bod negeseuon diogelwch cyson yn cael eu rhannu a dulliau gweithredu saff yn cael eu dilyn, ee diogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Maent wedi gofalu hefyd bod staff rheng flaen y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael blaenoriaeth fel gweithwyr allweddol hanfodol, er mwyn i staff allu cael gafael ar ofal plant neu gyfarpar diogelu personol.

Mae hwn yn gyfnod eithriadol ac ni allaf orbwysleisio'r risg. Nid wyf yn gor-ddweud pan ddywedaf y gallai ein hymateb i'r argyfwng hwn wneud y gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth i'r rheini sy'n wynebu perygl trais a chamdriniaeth. Rwy'n derbyn llawer iawn o lythyrau gan y rheini sy'n rhannu fy mhryderon ac rwyf am roi'r sicrwydd ein bod yn gweithio'n gyflym i roi mesurau ar waith i leihau'r effeithiau ofnadwy hyn. Mae'r dasg a wynebwn yn enfawr, ond ynghyd â'm cyd-Weinidogion a'm swyddogion, fe wnaif fy ngorau i'w chyflawni.



Jane Hutt AC/AM

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Mae **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn** yn darparu cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr, beth bynnag eu rhyw; darparwyr gwasanaethau ac eraill sy'n pryderu:

<https://llyw.cymru/byw-heb-ofn> Ffôn: 0808 8010 800

Mae **prosiect Dyn Cymru Ddiogelach** yn darparu cymorth i ddynion heterorywiol, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol sy'n profi camdriniaeth ddomestig gan bartner.

<http://www.dynwales.org/contact-dyn-project/?contentID=577> Ffôn: 0808 801 0321

Mae llinell gymorth Bawso yn cynnig cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr du ac Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig sy'n profi camdriniaeth ddomestig a phob math arall o drais yn erbyn menywod.

<https://bawso.org.uk/contact-us/> Ffôn: 08007318147